Sleid yn ymwneud ag AC 2.8: Cysylltiadau rhwng profiadau'r teuluoedd eu hunain drwy gydol cwrs eu bywyd, eu gwybodaeth am ddatblygiad plentyn, a'u disgwyliadau ar gyfer eu hunain a'u plant

**English**

Slide relates to AC 2.8: Links between families own experiences throughout their life course, their knowledge of child development, and expectations for themselves and their children

## Gwybodaeth, agweddau ac arferion magu plant

- Mae'r canlyniadau plant a ddisgrifir uchod yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ystyried yr ystod o wybodaeth, agweddau, ac arferion magu plant a nodi'r rhai y mae ymchwil yn eu cefnogi fel rhai craidd.
- 'Gwybodaeth': mae'n cyfeirio at ffeithiau, gwybodaeth, a sgiliau a enillwyd trwy brofiad neu addysg a dealltwriaeth o fater neu ffenomen.
- 'Agweddau': mae'n cyfeirio at farn, safbwyntiau, ymatebion, neu ffyrdd sefydlog o feddwl am agweddau ar rianta neu ddatblygiad plant, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau rhieni. Gall agweddau fod yn gysylltiedig â chredoau diwylliannol sy'n seiliedig ar brofiad cyffredin.

## Parenting knowledge, attitudes, and practices

- The child outcomes described above provide the context for considering the range of parenting knowledge, attitudes, and practices and identifying those that research supports as core.
- 'Knowledge': refers to facts, information, and skills gained through experience or education and understanding of an issue or phenomenon.
- 'Attitudes': refers to viewpoints, perspectives, reactions, or settled ways of thinking about aspects of parenting or child development, including parents' roles and responsibilities. Attitudes may be related to cultural beliefs founded in common experience.



**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.8: Cysylltiadau rhwng profiadau'r teuluoedd eu hunain drwy gydol cwrs eu bywyd, eu gwybodaeth am ddatblygiad plentyn, a'u disgwyliadau ar gyfer eu hunain a'u plant

**English**

Slide relates to AC 2.8: Links between families own experiences throughout their life course, their knowledge of child development, and expectations for themselves and their children

## Pa mor bwysig yw gwybodaeth rhieni ar gyfer datblygiad plentyn?

- Dangoswyd bod amgylcheddau teuluol sy'n cynnwys ffactorau sy'n gysylltiedig â rhianta da yn nodwedd warchodol ar gyfer plant sy'n cael eu magu mewn cymdogaethau difreintiedig (Seaman et al, 2005; Katz a Redmond, 2009; Nixon, 2012).
- Dangoswyd bod rhianta sensitif, sydd ar gael ac yn gyson yn hybu gwytnwch ymhlith plant sy'n byw mewn tlodi (Sroufe, et al 1990; Nixon, 2012).
- Mae perthnasoedd o ansawdd da rhwng mamau, tadau a'u plant hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol, sy'n ymddangos fel pe baent yn cario drosodd i fod yn oedolion (O'Connor a Scott 2007). Mae ymchwil hefyd yn awgrymu mai rhieni unigolyn yw'r dylanwadau cryfaf ar hunan-barch (Emler, 2001).

## How important is parental knowledge for child development?

- Family environments which include factors associated with good parenting have been shown to be a protective feature for children growing up in disadvantaged neighbourhoods (Seaman et al, 2005; Katz and Redmond, 2009; Nixon, 2012).
- Sensitive, available and consistent parenting has been shown to promote resilience in children living in poverty (Sroufe, et al 1990; Nixon, 2012).
- Good quality relationships between mothers, fathers and their children are also associated with positive outcomes, which appear to carry over to adulthood (O'Connor and Scott 2007). Research also suggests that the strongest influences on self-esteem are an individual's parents (Emler, 2001).

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales

**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.8: Cysylltiadau rhwng profiadau'r teuluoedd eu hunain drwy gydol cwrs eu bywyd, eu gwybodaeth am ddatblygiad plentyn, a'u disgwyliadau ar gyfer eu hunain a'u plant

**Ffynonellau wedi'u cymryd o Gyhoeddiad Llywodraeth Cymru: '**Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltu a chymorth' (Mai 2017)

**English**

Slide relates to AC 2.8: Links between families own experiences throughout their life course, their knowledge of child development, and expectations for themselves and their children

**Sources taken from Welsh Government Publication: '**Parenting in Wales: Guidance on engagement and support' (May 2017)

## Pa mor bwysig yw gwybodaeth rhieni ar gyfer datblygiad plentyn?

*"..mae cyfranogiad rhieni ar ffurf 'rhianta da gartref' yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyflawniad ac addasiad plant hyd yn oed ar ôl i'r holl ffactorau eraill sy'n llywio cyrhaeddiad gael eu tynnu allan o'r hafaliad.......Mae graddfa'r effaith yn amlwg ar draws yr holl ddosbarthiadau cymdeithasol a phob grŵp ethnig"* (Desforges a Bouchaard 2003).

## How important is parental knowledge for child development?


- *"..parental involvement in the form of 'at-home good parenting' has a significant positive effect on children's achievement and adjustment even after all other factors shaping attainment have been taken out of the equation.......The scale of the impact is evident across all social classes and all ethnic groups"* (Desforges and Bouchaard 2003).



**Facilitator notes**

**<u>Welsh</u>**
Sleid yn ymwneud ag AC 2.8: Cysylltiadau rhwng profiadau'r teuluoedd eu hunain drwy gydol cwrs eu bywyd, eu gwybodaeth am ddatblygiad plentyn, a'u disgwyliadau ar gyfer eu hunain a'u plant
**Ffynonellau wedi'u cymryd o Gyhoeddiad Llywodraeth Cymru: '**Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltu a chymorth' (Mai 2017)

**<u>English</u>**
Slide relates to AC 2.8: Links between families own experiences throughout their life course, their knowledge of child development, and expectations for themselves and their children
**Sources taken from Welsh Government Publication: '**Parenting in Wales: Guidance on engagement and support' (May 2017)





**Facilitator notes**

**<u>Welsh</u>**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.8: Cysylltiadau rhwng profiadau'r teuluoedd eu hunain drwy gydol cwrs eu bywyd, eu gwybodaeth am ddatblygiad plentyn, a'u disgwyliadau ar gyfer eu hunain a'u plant

**<u>English</u>**

Slide relates to AC 2.8: Links between families own experiences throughout their life course, their knowledge of child development, and expectations for themselves and their children




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

Ymarfer i'r grŵp: Diffiniwch y term 'ymlyniad'.

Darllen Allweddol

- Aldgate, J. and Jones, D. (2006)
  'The place of attachment in childrens' development.' In J. Aldgate, D. Jones, W. Rose and C. Jeffery (eds) The Developing World of the Child, pp.67-96. London: Jessica Kingsley Publishers.
- Daniel, B., Wassell, S. and Gilligan R.
  (2002) Child Development for Child Care and Protection Workers. London: Jessica Kingsley Publishers. (Chapter 2 (pp.14-39) Developing Relationships)
- Fahlberg, V. (1994) A Child's Journey Through Placement. London: British Agencies for Adoption and Fostering. (Chapter 1 (pp.13-61) Attachment and Bonding)
- Howe, D.
  (2005) Child Abuse and Neglect: Attachment, development and intervention.

Hampshire: Palgrave MacMillan. (Chapter 11 (pp.183-198) Drugs, Depression and Domestic Violence)


- 

**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences
Exercise to group: Define the term 'attachment'.

Key Reading

- Aldgate, J. and Jones, D. (2006) 'The place of attachment in childrens' development.' In J. Aldgate, D. Jones, W. Rose and C. Jeffery (eds) The Developing World of the Child, pp.67-96. London: Jessica Kingsley Publishers.
- Daniel, B., Wassell, S. and Gilligan R. (2002) Child Development for Child Care and Protection Workers. London: Jessica Kingsley Publishers. (Chapter 2 (pp.14-39) Developing Relationships)
- Fahlberg, V. (1994) A Child's Journey Through Placement. London: British Agencies for Adoption and Fostering. (Chapter 1 (pp.13-61) Attachment and Bonding)
- Howe, D. (2005) Child Abuse and Neglect: Attachment, development and intervention. Hampshire: Palgrave MacMillan. (Chapter 11 (pp.183-198) Drugs, Depression and Domestic Violence)




**Facilitator notes**

__Welsh__

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

**Nodweddion Ymlyniad Diogel:** Mae cyswllt a gychwynnir gan riant yn cael ei dderbyn yn rhwydd gan blant ag ymlyniad diogel ac maent yn croesawu dychweliad rhiant ag ymddygiad cadarnhaol. Er y gall y plant hyn gael eu cysuro i ryw raddau gan bobl eraill yn absenoldeb rhiant neu ofalwr, mae'n amlwg bod yn well ganddynt rieni na dieithriaid.

Mae rhieni plant ag ymlyniad diogel yn tueddu i chwarae mwy gyda'u plant. Yn ogystal, mae'r rhieni hyn yn ymateb yn gyflymach i anghenion eu plant ac yn gyffredinol maent yn fwy ymatebol i'w plant na rhieni plant sydd heb ymlyniad diogel.

**Nodweddion ymlyniad ansicr-amwys:**

Mewn rhai achosion, gall y plentyn wrthod y rhiant yn oddefol trwy wrthod cysur, neu gall ddangos ymosodedd uniongyrchol amlwg tuag at y rhiant.


**Nodweddion Ymlyniad Osgoi:**

Efallai na fydd y plant hyn yn gwrthod sylw gan riant, ond nid ydynt ychwaith yn ceisio cysur neu gysylltiad. Nid yw plant ag ymlyniad osgoi yn dangos unrhyw ffafriaeth rhwng rhiant a dieithryn llwyr.

__English__
Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences
**Secure Attachment Characteristics:** Contact initiated by a parent is readily accepted by securely attached children and they greet the return of a parent with positive behavior. While these children can be comforted to some extent by other people in the absence of a parent or caregiver, they clearly prefer parents to strangers.
Parents of securely attached children tend to play more with their children. Additionally, these parents react more quickly to their children's needs and are generally more responsive to their children than the parents of insecurely attached children.

**Ambivalent-insecure attachment characteristics:**
In some cases, the child might passively reject the parent by refusing comfort, or may openly display direct aggression toward the parent.

**Avoidant Attachment Characteristics:**
These children might not reject attention from




**Facilitator notes**

**<u>Welsh</u>**
Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd
**Nodweddion ymlyniad osgoi:**
Efallai na fydd y plant hyn yn gwrthod sylw gan riant, ond nid ydynt ychwaith yn ceisio cysur neu gysylltiad. Nid yw plant ag ymlyniad osgoi yn dangos unrhyw ffafriaeth rhwng rhiant a dieithryn llwyr.
Fel oedolion, mae'r rhai sydd ag ymlyniad osgoi yn dueddol o gael anhawster gydag agosatrwydd a pherthnasoedd agos.9Nid yw'r unigolion hyn yn buddsoddi llawer o emosiwn mewn perthnasoedd ac yn profi ychydig yn unig o ofid pan ddaw perthynas i ben.

**<u>English</u>**
Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences
**Avoidant attachment characteristics:**
These children might not reject attention from a parent, but neither do they seek out comfort or contact. Children with an avoidant attachment show no preference between a parent and a complete stranger.
As adults, those with an avoidant attachment tend to have difficulty with intimacy and close relationships.9 These individuals do not invest much emotion in relationships and experience little distress when a relationship ends.

## Ymlyniad o fewn cyd-destun profiadau bywyd

Dylai damcaniaeth ymlyniad lywio dadansoddiad o anawsterau perthynas rhwng y plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr.



## Attachment within the context of life experiences

Attachment theory should inform analysis of relationship difficulties between the child and the parent or caregiver.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales

**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

Nodiadau i'r hwylusydd:

- Mae Fahlberg (1994) yn awgrymu bod y term 'ymlyniad' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cysylltiad y plentyn â'r rhiant neu eraill a 'bondio' i ddisgrifio cysylltiad y rhiant â'r plentyn.
- Nid yw'r berthynas ymlyniad sylfaenol o reidrwydd yn dibynnu ar fwydo'r baban neu ddiwallu anghenion corfforol sylfaenol. Yn hytrach, mae'r berthynas ymlyniad sylfaenol a ddatblygir yn ystod babandod yng nghyd-destun rhyngweithiadau rhwng yr oedolion a'r plentyn. Oedolion (neu blant hŷn) sy'n ymateb yn sensitif i'r plentyn fydd y prif ffigurau ymlyniad.
- Ar sail y profiad o berthnasoedd cynnar, mae'r plentyn yn datblygu 'model gweithio mewnol' o berthnasoedd, sy'n fath o dempled sy'n cael ei gymhwyso i ryngweithio dilynol ag eraill.
- Po fwyaf o ryngweithio cymdeithasol sydd gan faban â rhywun, y mwyaf o ymlyniad sydd rhyngddo â'r person a'r mwyaf tebygol yw ef neu hi o deimlo'n gariadus ac yn deilwng o gael ei garu – y ddwy elfen bwysig o hunan-barch. Awgrymwyd hefyd bod ysgogiad ar gyfer twf a newid yn digwydd yn y

rhyngweithiadau hyn – gyda chydberthynas gref â datblygiad deallusol (Fahlberg 1994).

**Ffynhonnell: Childhood Neglect. Gov.UK**


**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences

Notes for facilitator:

- Fahlberg (1994) suggests the term ‘attachment’ be used to describe the child’s connection to the parent or others and ‘bonding’ to describe the parent’s link to the child.
- The primary attachment relationship is not necessarily dependent on feeding the infant or meeting basic physical needs. Instead the primary attachment relationship developed during infancy is in the context of interactions between the adults and the child. Adults (or older children) who respond sensitively to the child will become the primary attachment figures.
- On the basis of the experience of early relationships the child develops an ‘internal working model’ of relationships, which is a kind of template that is applied to subsequent interactions with others.
- The more social interactions an infant has with someone, the more strongly attached he or she becomes to the person and the more likely he or she is to feel lovable and worthy of being loved – both important components of self-esteem. It has also been suggested that in these interactions, stimulation for growth and change occurs – with a strong correlation with intellectual development (Fahlberg 1994).

**Source: Childhood Neglect. Gov.UK**




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

**Ffynhonnell: www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/neglect/#effects**

Esgeuluso plant yw anallu rhiant neu ofalwr i ddiwallu anghenion sylfaenol person ifanc, baban neu blentyn. Mae'n un math o gam-drin plant ochr yn ochr â cham-drin corfforol, rhywiol a seicolegol. Bydd yr erthygl hon yn edrych ar y pedwar math gwahanol o esgeuluso plant a'r arwyddion sy'n dangos bod esgeulustod yn digwydd. Yn ôl yr NSPCC, esgeuluso plant yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin plant. Mae pedwar math gwahanol o esgeulustod, sef:

Esgeulustod corfforol
Esgeulustod addysgol
Esgeulustod emosiynol
Esgeulustod meddygol

Gall esgeulustod fod yn fwriadol neu'n anfwriadol, ac mae llawer o resymau pam fod plant yn cael eu hesgeuluso. Yn aml, prif achosion esgeuluso plant yw tlodi, cam-drin sylweddau, iselder, diffyg cefnogaeth, sgiliau cymdeithasol gwael a pherthnasoedd anghariadus, cam-drin blaenorol, a chamddealltwriaeth am ddatblygiad plentyn.

**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences

**Source: www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/neglect/#effects**

Child neglect is the inability of a parent or carer to meet the fundamental needs of a young person, infant or child. It is one form of child abuse alongside physical, sexual, and psychological abuse. This article will look at the four different forms of child neglect and the signs that indicate neglect is happening.

According to the NSPCC, child neglect is the most common form of child abuse. The are four different types of neglect, these are:

Physical neglect

Educational neglect

Emotional neglect

Medical neglect

Neglect can be intentional or inadvertent, and there are many reasons why child neglect happens. The primary causes of child neglect are often poverty, substance abuse, depression, a lack of support, poor social skills and unloving relationships, former abuse, and misunderstandings about child development.

**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

Yn ôl yr NSPCC, mae rhai grwpiau o blant a phobl ifanc mewn mwy o berygl nag eraill. Maen nhw'n honni bod y grwpiau hyn yn cynnwys:


- Babanod cynamserol.
- Plant anabl.
- Plant ag afiechydon difrifol.
- Plant mewn gofal.
- Ceiswyr lloches.

**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences

According to the NSPCC, certain groups of children and young people are more at risk than others. They claim that these groups include:

- Premature babies.
- Disabled children.
- Children with serious illnesses.
- Children in care.
- Asylum seekers.




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

**Esgeulustod corfforol:** Mae gan riant neu ofalwr ddyletswydd i ofalu am anghenion sylfaenol plentyn, sy'n cynnwys darparu bwyd, lloches a dillad, a chadw'r plentyn yn lân ac yn hylan. Methiant i ddiwallu'r anghenion sylfaenol hyn yw esgeulustod corfforol.

Gall yr anallu i ddarparu bwyd i blentyn amlygu ei hun wrth i'r plentyn ymddangos yn denau ac yn newynog neu'n dod i'r ysgol heb gael brecwast, heb becyn bwyd a dim arian i brynu bwyd yn yr ysgol. Gall y canlyniadau fod yn niweidiol iawn; gall diffyg maeth mewn babanod a phlant ifanc achosi niwed parhaol i ddatblygiad yr ymennydd, gan arwain at weithrediad isaf yr ymennydd.

Gall esgeuluso plentyn yn gorfforol arwain at lefelau annigonol o hylendid, neu gallent ddod i'r ysgol ar ddiwrnod oer heb haenau cynnes o ddillad. Gall eu dillad fod heb eu golchi, yn ffitio'n wael neu efallai bod tyllau ynddynt. Gall amgylchedd eu cartref fod yn fudr ac yn anhylan, neu'n oer ac yn llaith.

Mae methu â chadw plentyn yn ddiogel rhag perygl hefyd yn cyfrif fel esgeulustod corfforol. Er enghraifft, pe bai rhiant yn gadael i blentyn ifanc gerdded o amgylch y dref

ar ei ben ei hun, neu pe bai'n ei adael gartref ar ei ben ei hun heb oruchwyliaeth, caiff hyn ei ddosbarthu fel esgeulustod corfforol plentyn.
**Esgeulustod meddygol:** Cyfrifoldeb rhiant neu ofalwr yw sicrhau bod plentyn yn derbyn gofal iechyd a deintyddol digonol; mae methu â gwneud hynny yn fath o esgeulustod. Er enghraifft, efallai na fydd anafiadau plentyn, problemau iechyd neu broblemau deintyddol yn cael eu trin, neu gall y plentyn ddioddef o salwch a chyflyrau cyson fel briwiau croen, llyngyr neu frech. Gallant fod yn anemig neu bob amser wedi blino, ac efallai na fyddant yn cael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer cyflwr penodol. Gallant fod yn fach am eu hoedran a gallent lusgo y tu ôl i'w cyfoedion gyda sgiliau llythrennedd a chymdeithasol.
Mae esgeulustod meddygol hefyd yn cynnwys anwybyddu cyngor meddyg neu ddeintydd, gwrthod caniatáu i blentyn gael ei drin a pheidio â mynd â phlant i apwyntiadau arferol fel brechiadau.
**Esgeulustod addysgol:** Mae amddifadu eich plentyn o addysg yn erbyn y gyfraith, felly os bydd rhiant yn methu ag anfon eu plentyn i'r ysgol, neu'n methu â chymryd camau i atal triwantiaeth, gallent fod yn euog o esgeulustod addysgol.
Fodd bynnag, nid yw'n anghyfreithlon i gymryd plentyn allan o'r ysgol os yw'r rhieni neu ofalwyr yn darparu addysg arall iddynt; hynny yw, eu haddysgu gartref a'u bod wedi dweud wrth ysgol y plentyn am eu bwriadau (a'r cyngor, os yw'r plentyn mewn ysgol anghenion addysgol arbennig).
Gall cynghorau lleol wneud gwiriadau anffurfiol rheolaidd ar rieni sy'n addysgu eu plentyn gartref i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn diwallu anghenion addysgol y plentyn; os bydd y cyngor yn dod o hyd i dystiolaeth o esgeulustod addysgol, gall roi gorchymyn presenoldeb ysgol i rieni.
**Esgeulustod emosiynol:** Mae gan blentyn anghenion emosiynol yn ogystal â chorfforol ac addysgol, ac os nad yw rhieni a gwarcheidwaid yn bodloni'r gofynion hyn, fe'i gelwir yn esgeulustod emosiynol. Gallai esgeulustod emosiynol olygu nad yw plentyn yn cael cymaint o sylw, ysgogiad neu anwyldeb ag sydd ei angen arno gan riant neu ofalwr, ond gall hefyd fod yn fwy penodol na hynny.
Er enghraifft, gall rhiant neu ofalwr godi ofn ar y plentyn fel mater o drefn, neu ei fychanu, neu ei gloi i ffwrdd heb ryngweithio dynol. Gall esgeulustod emosiynol arwain at broblemau iechyd meddwl hirdymor a gall arwain at broblemau o ran cynnal perthnasoedd iach gyda phartneriaid, ffrindiau neu hyd yn oed eu plant pan fyddant yn oedolion. Yn anffodus, mae esgeulustod emosiynol yn anodd i'w brofi, oherwydd yn aml mae'n air un person yn erbyn un arall.
Cyfeiriad: NSPCC.
Dolen i GWIS esgeulustod. www.highspeedtraining.co.uk/hub/child-neglect-quiz/

**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences
**Physical neglect:** A parent or carer has a duty to take care of a child's basic needs, which includes providing food, shelter and clothes, and keeping the child clean and hygienic. A failure to meet these basic needs is physical neglect.
The inability to provide a child with food may manifest in the child seeming thin and hungry or coming to school having had no breakfast, with no packed lunch and no money to buy food at school. The consequences can be very harmful; malnourishment

in babies and young children can cause lasting damage to brain development, resulting in lower brain functioning.

The physical neglect of a child may lead to inadequate levels of hygiene, or they could turn up to school on a cold day with no warm layers of clothing. Their clothes may be unwashed, poorly fitting or may have holes. Their home environment may be dirty and unhygienic, or cold and damp.

Failing to keep a child safe from danger also counts as physical neglect. For example, if a parent were to let a young child walk around town on their own, or if they were to leave them home on their own unsupervised, this is classed as physical child neglect.

**Medical neglect:** It's the responsibility of a parent or carer to ensure that a child receives adequate health and dental care; failure to do so is a form of neglect.

For example, a child's injuries, health issues or dental problems may go untreated, or the child may suffer from repeated illnesses and conditions such as skin sores, ringworm or rashes. They may be anaemic or always tired, and they may not receive the medication they need for a particular condition. They may be small for their age and could lag behind their peers with literacy and social skills.

Medical neglect also includes ignoring the advice of a doctor or dentist, refusing to allow a child to be treated and not taking children to routine appointments such as vaccinations

**Educational neglect:** Depriving your child of an education is against the law, so if a parent fails to send their child to school, or fails to take action to prevent truancy, they could be guilty of educational neglect.

However, it's not illegal to take a child out of school if the parents or carers are providing them with an alternative education; that is, teaching them at home and having told the child's school of their intentions (and the council, if the child is in a special educational needs school).


Local councils may make regular informal checks on parents who are homeschooling their child to ensure that parents and carers are meeting the child's educational needs; if the council finds evidence of educational neglect, they can issue parents with a school attendance order.

**Emotional neglect:** A child has emotional needs as well as physical and educational, and if parents and guardians don't meet these requirements, it's known as emotional neglect. Emotional neglect could mean that a child isn't getting the amount of attention, stimulation or affection that they need from a parent or carer, but it can also be more calculated than that.

For instance, a parent or carer may routinely scare the child, or humiliate them, or lock them away without human interaction. Emotional neglect can result in long-lasting mental health problems and can lead to issues maintaining healthy relationships with partners, friends or even their children when they reach adulthood. Unfortunately, emotional neglect is tough to prove, because it's often one person's word against another.

Reference: NSPCC.

Link to neglect QUIZ. www.highspeedtraining.co.uk/hub/child-neglect-quiz/




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd

**Adnodd Hanfodol: https://www.childwelfare.gov/pubpdfs/long_term_consequences.pdf**

Gall y canlyniadau hyn fod yn annibynnol ar ei gilydd, ond gallant hefyd fod yn rhyngberthynol. Er enghraifft, gall cam-drin neu esgeulustod atal datblygiad corfforol ymennydd y plentyn ac arwain at broblemau seicolegol, megis hunan-barch isel, a allai arwain yn ddiweddarach at ymddygiadau risg uchel, megis defnyddio sylweddau. Gall y canlyniadau ar gyfer pob plentyn amrywio'n fawr a chael eu heffeithio gan gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys oedran a statws datblygiadol y plentyn pan ddigwyddodd y cam-drin; math, amlder, hyd, a difrifoldeb y cam-drin; a'r berthynas rhwng y plentyn a'r troseddwr. Yn ogystal, mae plant sy'n cael eu cam-drin yn aml yn cael eu heffeithio gan brofiadau niweidiol eraill (e.e. rhieni yn defnyddio sylweddau, trais domestig, tlodi), a all ei gwneud hi'n anodd gwahanu effeithiau unigryw cam-drin (Rosen, Handley, Cicchetti, & Rogosch, 2018).

**Llai o weithrediad gweithredol a sgiliau gwybyddol.** Gall tarfu ar ddatblygiad yr ymennydd o ganlyniad i gamdriniaeth achosi namau i swyddogaethau gweithredol yr ymennydd: cof gweithio, hunanreolaeth, a hyblygrwydd gwybyddol (hy, y gallu i edrych ar bethau a sefyllfaoedd o wahanol safbwyntiau) (Kavanaugh, Dupont-Frechette, Jerskey, & Holler, 2016). Mae plant a gafodd eu cam-drin hefyd mewn perygl

o gael problemau gwybyddol eraill, gan gynnwys anawsterau dysgu a thalu sylw (Bick & Nelson, 2016).


**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences

**Essential Resource:**
**https://www.childwelfare.gov/pubpdfs/long_term_consequences.pdf**

These consequences may be independent of each other, but they also may be interrelated. For example, abuse or neglect may stunt physical development of the child's brain and lead to psychological problems, such as low self-esteem, which could later lead to high-risk behaviors, such as substance use. The outcomes for each child may vary widely and are affected by a combination of factors, including the child's age and developmental status when the maltreatment occurred; the type, frequency, duration, and severity of the maltreatment; and the relationship between the child and the perpetrator. Additionally, children who experience maltreatment often are affected by other adverse experiences (e.g., parental substance use, domestic violence, poverty), which can make it difficult to separate the unique effects of maltreatment (Rosen, Handley, Cicchetti, & Rogosch, 2018).

**Diminished executive functioning and cognitive skills.** Disrupted brain development as a result of maltreatment can cause impairments to the brain's executive functions: working memory, self-control, and cognitive flexibility (i.e., the ability to look at things and situations from different perspectives) (Kavanaugh, Dupont-Frechette, Jerskey, & Holler, 2016). Children who were maltreated also are at risk for other cognitive problems, including difficulties learning and paying attention (Bick & Nelson, 2016).




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.9: Yr ystod o ddosbarthiadau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd


- Mae tarfu ar **ddatblygiad yr ymennydd** o ganlyniad i gamdriniaeth yn gallu achosi namau i swyddogaethau gweithredol yr ymennydd: cof gweithio, hunanreolaeth, a hyblygrwydd gwybyddol (hy, y gallu i edrych ar bethau a sefyllfaoedd o wahanol safbwyntiau) (Kavanaugh, Dupont-Frechette, Jerskey, a Holler , 2016). Mae plant a gafodd eu cam-drin hefyd mewn perygl o gael problemau gwybyddol eraill, gan gynnwys anawsterau dysgu a thalu sylw (Bick & Nelson, 2016).
- Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu tynnu oddi wrth eu teulu yn dioddef arwahanrwydd a theimladau o golled, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu cam-drin. Mae'r teimladau hyn yn cael eu dwysáu pan fyddant yn profi lleoliadau lluosog (Schofield a Beek, 2005). Mae ansefydlogrwydd lleoliad yn lleihau cyfleoedd plentyn i ddatblygu ymlyniadau diogel. Gall hefyd waethygu unrhyw anawsterau ymddygiadol ac emosiynol sy’n bodoli eisoes (Schofield a Beek, 2005), gan ei gwneud yn anos i blant sefydlu perthnasoedd â gofalwyr a chyfrannu at fethiant lleoliad pellach a gwrthodiad (Munro a Hardy, 2006).
- Gall babanod mewn gofal maeth sydd wedi profi cam-drin ac yna amhariadau wrth roi gofal cynnar ddatblygu anhwylderau ymlyniad. Gall

anhwylderau ymlyniad effeithio'n negyddol ar allu plentyn i ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion, rhai cymdeithasol a rhamantus yn ddiweddarach mewn bywyd (Doyle & Cicchetti, 2017). Yn ogystal, mae plant sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn fwy tebygol o ddatblygu nodweddion gwrthgymdeithasol wrth iddynt dyfu i fyny, a all arwain at ymddygiad troseddol pan fyddant yn oedolion.

**English**

Slide relates to AC 2.9: The range of attachment classifications and how these are connected to life experiences

- Disrupted **brain development** as a result of maltreatment can cause impairments to the brain's executive functions: working memory, self-control, and cognitive flexibility (i.e., the ability to look at things and situations from different perspectives) (Kavanaugh, Dupont-Frechette, Jerskey, & Holler, 2016). Children who were maltreated also are at risk for other cognitive problems, including difficulties learning and paying attention (Bick & Nelson, 2016).
- Children and young people who are removed from their family suffer separation and feelings of loss, even if they have been maltreated. These feelings are compounded when they experience multiple placements (Schofield and Beek, 2005). Placement instability reduces a child's opportunities to develop secure attachments. It may also exacerbate any existing behavioural and emotional difficulties (Schofield and Beek, 2005), making it more difficult for children to establish relationships with carers and contributing to further placement breakdown and rejection (Munro and Hardy, 2006).
- Infants in foster care who have experienced maltreatment followed by disruptions in early caregiving can develop attachment disorders. Attachment disorders can negatively affect a child's ability to form positive peer, social, and romantic relationships later in life (Doyle & Cicchetti, 2017). Additionally, children who experience abuse or neglect are more likely to develop antisocial traits as they grow up, which can lead to criminal behavior in adulthood.




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.10: Damcaniaethau ymlyniad a'u pwysigrwydd ar gyfer: • cefnogi gwytnwch, llesiant a datblygiad cyfannol plant a phobl ifanc • deall effaith bosibl anawsterau ymlyniad ar unigolion trwy gydol eu bywyd, y ffordd y maent yn gweithredu mewn cymdeithas, yn ffurfio perthnasoedd ac yn ymateb i eraill


Trwy ei waith gyda phlant, datblygodd Bowlby gred gref yn effaith profiadau teuluol ar lesiant emosiynol ac ymddygiadol plant.
Yn gynnar yn ei yrfa, cynigiodd Bowlby y dylai seicdreiddiwyr sy'n gweithio gyda phlant gymryd persbectif cyfannol, gan ystyried amgylcheddau byw plant, teuluoedd, a phrofiadau eraill yn ogystal ag unrhyw ymddygiadau a arddangosir gan y plant eu hunain.
Tyfodd y syniad hwn yn strategaeth o helpu plant trwy helpu eu rhieni, strategaeth effeithiol ar y cyfan o ystyried pwysigrwydd perthynas y plentyn â'i rieni (neu ofalwyr eraill).

**English**

Slide relates to AC 2.10: Attachment theories and their importance for: • supporting the resilience, well-being and holistic development of children and young people • understanding the potential impact of attachment difficulties on individuals throughout their life course, the way that they function in society, form relationships and react to others

Through his work with children, Bowlby developed a strong belief in the impact of family experiences on children’s emotional and behavioral well-being.

Early on in his career, Bowlby proposed that psychoanalysts working with children should take a holistic perspective, considering children’s living environments, families, and other experiences in addition to any behaviors exhibited by the children themselves.
This idea grew into a strategy of helping children by helping their parents, a generally effective strategy given the importance of the child’s relationships with their parents (or other caregivers).




**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.10: Damcaniaethau ymlyniad a'u pwysigrwydd ar gyfer: • cefnogi gwytnwch, llesiant a datblygiad cyfannol plant a phobl ifanc • deall effaith bosibl anawsterau ymlyniad ar unigolion trwy gydol eu bywyd, y ffordd y maent yn gweithredu mewn cymdeithas, yn ffurfio perthnasoedd ac yn ymateb i eraill

**English**

Slide relates to AC 2.10: Attachment theories and their importance for: • supporting the resilience, well-being and holistic development of children and young people • understanding the potential impact of attachment difficulties on individuals throughout their life course, the way that they function in society, form relationships and react to others

**Damcaniaeth ymlyniad: Dollard a Miller (1950)**



- Awgrymodd Dollard a Miller fod ymlyniad yn dod yn ymddygiad dysgedig a geir trwy gyflyru clasurol (ymateb i ysgogiadau) a gweithredol (cysylltiad rhwng ymddygiad a chanlyniad).
- Mae damcaniaeth dysgu ymlyniad yn cynnwys pedair proses: ysgogiad, ciw, ymateb ac atgyfnerthu.

**Attachment theory: Dollard and Miller (1950)**



- Dollard and Miller suggested that attachment becomes a learned behavior acquired through classical (response to stimuli) and operant conditioning (association between behaviour and consequence).
- The learning theory of attachment consists of four processes: drive, cue, response and reinforcement.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Facilitator notes**

**Welsh**

Sleid yn ymwneud ag AC 2.10: Damcaniaethau ymlyniad a'u pwysigrwydd ar gyfer: · cefnogi gwytnwch, llesiant a datblygiad cyfannol plant a phobl ifanc · deall effaith bosibl anawsterau ymlyniad ar unigolion trwy gydol eu bywyd, y ffordd y maent yn gweithredu mewn cymdeithas, yn ffurfio perthnasoedd ac yn ymateb i eraill

- Awgrymodd Dollard a Miller fod ymlyniad yn dod yn ymddygiad dysgedig a geir trwy gyflyru clasurol a gweithredol. Dywedodd damcaniaeth dysgu ymlyniad Dollard a Miller mai'r rheswm dros ymlyniad rhwng y plentyn a'r fam oedd oherwydd bod y fam yn bwydo'r baban ac nid oherwydd cysylltiad emosiynol dwys a pharhaus, fel y disgrifiwyd gan Bowlby a Robertson. Awgrymodd Dollard a Miller fod babanod yn cael eu geni heb reolau ar gyfer prosesu gwybodaeth, a bod gwybodaeth yn cael ei hychwanegu a bod rheolau ar gyfer prosesu yn cael eu ffurfio gan brofiadau synhwyraidd. Felly, er mwyn i ymlyniad ddigwydd, caiff ymddygiadau eu dysgu yn hytrach na bod yn gynhenid. Mae damcaniaeth dysgu ymlyniad yn cynnwys pedair proses: ysgogiad, ciw, ymateb ac atgyfnerthu. Anogaethau cynhenid, a bennir yn fiolegol i gyrraedd nodau neu ddiwallu anghenion yw ysfeydd. Maent yn cynhyrchu anghysur sy'n cymell bodau dynol i weithredu wrth ddod ar draws ciw. Mae ciw yn unrhyw beth sy'n gweithredu fel signal, gan sbarduno ymateb ymddygiadol i leihau'r ysfa. Po fwyaf y bydd plentyn yn llwyddo i leihau'r ysfa, y mwyaf tebygol yw hi y disgwylir i'r ymateb i'r ciw ddigwydd.
- Yn ôl Dollard a Miller, y sail ar gyfer dysgu ymlyniadau yw darparu bwyd. Cyn dysgu ymlyniad, mae cyflyru clasurol a gweithredol yn digwydd. Mewn

cyflyru clasurol mae baban yn ennill pleser trwy gael ei fwydo. Yr ysgogiad heb ei gyflyru yw bwyd a'r ymateb heb ei gyflyru yw pleser, sy'n cyfeirio at ymateb dysgedig i'r ysgogiadau niwtral blaenorol. Pan fydd y baban yn cael ei fwydo, mae'n dechrau cysylltu'r person sy'n darparu'r bwyd â'r bwyd ei hun. Y prif ofalwr sy'n darparu bwyd yw'r ysgogiad niwtral i ddechrau. Yn gynyddol, mae'r prif ofalwr yn dod yn ysgogiad heb ei gyflyru wrth i'r baban ei gysylltu â bwyd. Dysgir ymlyniad pan fydd y baban yn cael pleser ym mhresenoldeb y gofalwr sylfaenol, ac ar yr adeg honno, daw'r prif ofalwr yn ysgogiad wedi'i gyflyru a phleser yw'r ymateb wedi'i gyflyru. Ystyrir felly fod y baban yn ffurfio ymlyniad â phwy bynnag sy'n ei fwydo. Yn ystod cyflyru gweithredol, rhaid atgyfnerthu ymddygiad er mwyn ei gynnal. Mae hyn yn gofyn am ymatebion lluosog i ddod o hyd i'r un sydd fwyaf addas i fodloni'r ysfeydd. Mae babanod yn crio pan fyddant yn newynog, gan achosi i'w mam ddarparu bwyd, enghraifft o atgyfnerthiad sylfaenol. Ar yr un pryd, efallai y byddant yn teimlo'r cysur a'r cysylltiad â'u mam, gan achosi atgyfnerthiad eilaidd. Pan fydd y baban yn teimlo cyflwr anghyfforddus, bydd y gofalwr yn gweithredu ar ei gysuro. Bydd bwyd yn cysuro'r baban ac, o ganlyniad, bydd crio yn cael ei ddysgu trwy atgyfnerthiad negyddol a fyddai'n arwain at leihau ysfa. Oherwydd yr aflonyddwch cychwynnol i lefel homeostasis y plentyn, datblygwyd ysfa i ddiwallu'r angen penodol hwnnw, megis cael ei fwydo, a dod â'r plentyn i lefel o ymlacio. Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae'r plentyn yn cysylltu'r pleser o deimlo'n gyfforddus trwy gael ei fwydo gyda'r prif ofalwr.

•

**<u>English</u>**

Slide relates to AC 2.10: Attachment theories and their importance for: · supporting the resilience, well-being and holistic development of children and young people · understanding the potential impact of attachment difficulties on individuals throughout their life course, the way that they function in society, form relationships and react to others

- Dollard and Miller suggested that attachment becomes a learned behavior acquired through classical and operant conditioning. Dollard and Miller’s learning theory of attachment stated that the cause for attachment between the child and the mother was because the mother fed the infant and not due to a profound and enduring emotional connection, as described by Bowlby and Robertson. Dollard and Miller suggested that infants are born without rules for processing information, and that information is added and rules for processing are formed by sensory experiences. Therefore, for attachment to occur, behaviors are learned rather than innate. The learning theory of attachment consists of four processes: drive, cue, response and reinforcement. Drives are innate, biologically determined urges to attain goals or satisfy needs. They produce discomfort that impels humans to act when encountering a cue. A cue is anything that serves as a signal, triggering a behavioral response to reduce the drive. The more a child becomes successful at reducing the drive, the more likely the response to the cue is expected to occur.
- According to Dollard and Miller, the basis for the learning of attachments is the provision of food. Before attachment is learned, classical and operant

conditioning occur. In classical conditioning an infant gains pleasure by being fed. The unconditioned stimulus is food and the unconditioned response is pleasure, which refers to a learned response to the previously neutral stimuli. When the infant is being fed, it begins to associate the person providing the food with the food itself. The primary caregiver providing food is initially the neutral stimulus. Progressively, the primary caregiver becomes the unconditioned stimulus as the infant associates him/her with food. Attachment is learned when the infant gains pleasure in the presence of the primary caregiver, at which point, the primary caregiver becomes the conditioned stimulus and pleasure becomes the conditioned response. The infant therefore is regarded to form an attachment with whomever feeds it. During operant conditioning, a behavior must be reinforced in order to be maintained. This requires multiple responses to find the one that is best suited to satisfy the drives. Infants cry when they are hungry, causing their mother to provide food, an example of a primary reinforcement. At the same time, they may feel the comfort and connection with their mother, causing a secondary reinforcement. When the infant perceives an uncomfortable state, the caregiver will act upon comforting it. Food will comfort the infant and, as a result, crying will be learned through negative reinforcement which would result in drive reduction. Because there was initial disturbance to the child's level of homeostasis, a drive was developed to fulfill that specific need, such as being fed, and bring the child to a level of relaxation. As time progresses, the child associates the pleasure of feeling comfortable by being fed with the primary caregiver.